# PWYLLGOR PENODI A

## DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

**PRESENNOL** Cynghorydd D Price (Cadeirydd – yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | J.M. Charles | H.A.L. Evans | L.D. Evans |
| N. Evans | P.M. Hughes | P. Hughes-Griffiths | R. James |
| G.H. John | D. Jones | A. Lenny | E.G. Thomas |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | |
|---|---|
| K. Madge | A. Vaughan Owen |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
H. Daniels, Ymgynghorydd Datblygu Corfforaethol
S. Dougherty, Ymgynghorydd Dylunio Trefniadaeth
A. Machin, Rheolwr Dysgu a Datblygu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 1.30 - 4.30 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Cundy, S. Curry, A. Davies, G. Davies a H. Shepardson.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION A GYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 MAI 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a oedd wedi'i gynnal ar 1 Mai, 2019, gan eu bod yn gywir.**

**4. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU)**

**2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**

P**ENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.**

**5. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR 26 MEDI 2022**

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 26 Medi 2022.**

**6. GWYBODAETH CAIS**

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, derbyn y wybodaeth ymgeisio a ddosbarthwyd gyda'r agenda ar gyfer y cyfarfod.**

**7. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR AR Y RHESTR FER AR GYFER SWYDD CYFARWYDDWR LLE A SEILWAITH AC YSTYRIED GWNEUD PENODIAD.**

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Amlinellwyd i'r Pwyllgor y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai tri o'r pump ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y tri ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

Cafodd y Pwyllgor adborth gan swyddogion mewn perthynas â'r broses recriwtio ac asesu a'i gasgliadau. Yn dilyn trafodaeth -

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL BENODI A. Williams yn Gyfarwyddwr Lle a Seilwaith**

[Galwyd A. Williams yn ôl i'r cyfarfod, a dywedodd ei fod yn derbyn y swydd.]

**CHAIR** **DATE**